PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD IAU, 8 MEHEFIN 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Stubbs(Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Humphreys, Ahmed, Hunt, Reid-Jones, Robson a/ac Sattar |

Nododd y Pwyllgor fod y Cyngor, yn ei Gyfarfod Blynyddol ar 25 Mai 2023 wedi cytuno ar Aelodaeth y Pwyllgor a Chylch Gorchwyl y Pwyllgor Cynllunio.

1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Heather Joyce, Michael Michael a Peter Wong.

2 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Robson fudd rhagfarnus mewn perthynas â chais 21/02984/MJR gan fod yr ymgeisydd yn ffrind agos i'r teulu.

3 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Ebrill 2023 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

4 : DEISEBAU

Nid oedd deisebau ynghlwm â'r cais - 21/02984/MJR

5 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Ystyriodd y Pwyllgor y rhestr o geisiadau rheoli datblygu yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Pwyllgor hwn yn unol â phwerau a ddirprwyir iddo benderfynu ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn ôl yr argymhelliad a nodir yn adroddiadau Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach fel y manylir arnynt isod, a rhoi gwybod am y penderfyniadau'n unol ag Adran 70 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu Adran 74 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO CAIS YN AMODOL AR YMRWYMO I GYTUNDEB ADRAN 106 RHWYMOL:**

*(Gadawodd y Cynghorydd Adrian Robson y cyfarfod, yn unol â'i fudd rhagfarnus, wrth ystyried y cais hwwn).*

21/02984/MJR – CATHAYS

PLOTIAU 4 A 5, SGWÂR CANOLOG, CANOL Y DDINAS, CAERDYDD

Cais cynllunio llawn ar gyfer adeilad defnydd cymysg sy'n darparu defnyddiau masnachol ar lefel y llawr gwaelod / mesanîn (dosbarthiadau defnydd A1/A2/A3/B1/D1/D2) a llety preswyl uwchlaw (dosbarth defnydd C3 gan gynnwys dosbarth defnydd preswyl nad yw’n C3), pafiliwn (Dosbarthiadau defnydd A1/A2/A3), tir cyhoeddus, parcio i feiciau, mynediad, draenio a gwaith seilwaith arall i gyflawni plotiau 4 a 5 y Sgwâr Canolog.

Gofynnwyd i swyddogion ddiwygio Amod 12 (Parcio Beiciau) er mwyn pwysleisio'r angen i barcio beiciau gael ei ddiogelu a'i oruchwylio gan deledu cylch cyfyng.

## 6 : GORCHYMYN DARGYFEIRIO LLWYBR CYHOEDDUS - SAIN FFAGAN 21

Amlinellodd yr adroddiad y cais am wyro llwybr cyhoeddus - Sain Ffagan 21, gan ganiatáu i'r llwybr troed gael ei ailalinio o fewn datblygiad newydd Clos Y Cwarra.

CYTUNODD y Pwyllgor i gymeradwyo'r cais i ganiatáu i'r Gwasanaethau Cyfreithiol brosesu'r Gorchymyn Cyfreithiol i ddargyfeirio'r Llwybr Cyhoeddus, Sain Ffagan 21.

## 7 : CEISIADAU WEDI’U PENDERFYNU GAN BWERAU DIRPRWYEDIG

Nodwyd y ceisiadau a benderfynwyd gan bwerau dirprwyedig rhwng 24 Mawrth 2023 a 26 Mai 2023.

## 8 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Doedd dim.

## 9 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ddydd Iau 6 Gorffennaf 2023.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50 am